THE SCHOOL AT THE HEART OF WALES

# CYLCHLYTHYR

YSGOL CALON CYMRU

12 FED O HYDREF 2020



## Reading Wise / MathsWatch

Annwyl Riant / Gofalwr,

Mae’r adran Saesneg wedi tanysgrifo i Reading Wise, sef adnodd ar-lein rhyngweithiol. Ein bwriad yw defnyddio Reading Wise i helpu i gefnogi datblygiad sgiliau darllen y disgyblion yn y cartref. Ar hyn o bryd, mae dau becyn ar gael i ddisgbylion – Roald Dahl  a Phecyn Clasurol. Mae’r ddau’n cynnig cyfle i ddisgyblion weithio trwy ‘ Sgiliau Mega’ sy’n rhoi cyfle i arfer a datblygu sgiliau darllen gwahanol. Rhoddir manylion mewngofnodi i’r disgyblion yn ystod gwersi Saesneg yn ogystal ag arddangosiad o sut i ddefnyddio’r safle hwn. Yn ogystal â chynnal arddangosiad rydym hefyd wedi llunio canllaw fideo i esbonio sut i fewngofnodi a gwe-lywio o gwmpas y safle. Gweler cyfarwyddiadau cryno isod.

1. Cyrchu Moodle trwy wefan yr ysgol [www.ysgolcalon.cymru](http://www.ysgolcalon.cymru) a dewis ‘English’ o ‘My Courses’

2. Cliciwch y botwm Reading Wise

3. Mewnbynnwch enw’r defnyddiwr a’r cyfrinair a roddwyd gan yr ysgol

4. Dewiswch yr opsiwn ‘Comprehension’

5. Cliciwch glawr y llyfr ar gyfer ‘George’s Marvellous Medicine’ gan Roald Dahl

6. Gweithiwch drwy’r penodau, gan ddechrau gyda’r cyflwyniad (GI Intro).

7. Cofiwch glicio’r dyn cartŵn barfog wrth ddechrau GI neu Mega Skill newydd gan y bydd hyn yn chwarae esboniad o’r dasg.

8. Bydd cwblhau’r GI yn datgloi’r ‘Quiz’ – gwnewch hyn ond wedi cwblhau’r Mega Skills i gyd i’ch helpu i wella eich sgôr!

Mae’r adran Fathemateg wedi tanysgrifo i MathsWatch. Amgylchedd Ddysgu Rithiol [VLE (Virtual Learning Environment)] yw hyn lle mae gan bob pwnc mathemateg fideo ardderchog a dengar, taflen waith ar-lein sy’n rhoi adborth di-oed ac adnoddau printiadwy.

Bydd eich athro’n rhoi manylion mewngofnodi i chi ac wedi i chi fewngofnodi, gallwch gyrchu deunyddiau adolygu, yr aseiniadau a osodwyd gan eich athro, ac asesiadau. Mewn un lle, mae gennym bopeth sydd ei angen i ddisgyblion ymwneud â’u dysgu eu hunain.

Hefyd, mae’n adnodd da y gall rhieni ymwneud ag ef. Mae’r fideos yn rhoi nid yn unig gyfarwydd ond hefyd enghreifftiau a weithiwyd y gallwch eu seibio a rhoi cynnig arynt. Mae adborth di-oed o’r daflen waith ryngweithiol yn dweud wrthych chi a ni sut rydych yn dod ymlaen. Fela arfer ceir 2 fersiwn o’r fideo ar gyfer pob pwnc – fersiwn hwy a manylach ac atgof cyflym.

Felly, os nad ydych wedi gwneud hynny eisoes, gofynnwch i’ch athro am eich Enw Defnyddiwr a Chyfrinair ac efallai cyfarwyddiadau printiadwy ar sut i gael y gorau o MathsWatch. Y tro cyntaf rydych yn mewngofnodi, newidiwch eich cyfrinair i

rywbeth y byddwch yn ei gofio.  Mae gan eich athro dosbarth fynediad i'r cyfrif a gall ail-osod eich cyfrinair pe baech yn ei anghofio. Yna gwiriwch yr aseiniadau a osodwyd gan eich athro fel gwaith cartref, neu edrychwch ar bwnc y gwyddoch ei fod yn heriol a gwyliwch fideo.

Yn gywir,





Lyndon Jones
Pennaeth Cynorthwyol, Ysgol Calon Cymru
Campws Llandrindod